# Arolwg o Fwriadau Ffermwyr – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae Hybu Cig Cymru (HCC) yn cynnal trydydd rownd o ymchwil sy'n archwilio'r heriau sy'n wynebu ffermwyr cig eidion a defaid yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â chostau mewnbwn cynyddol. Nod yr ymchwil hwn yw asesu heriau presennol a chynlluniau busnes y dyfodol, gan helpu i lywio trafodaethau yn y dyfodol.

Fel rhan o'r ymchwil hwn, casglodd HCC wybodaeth drwy dau arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, 2023 a 2024, ac mae bellach yn gwneud y broses hon ym mis Medi 2025 er mwyn asesu beth sydd wedi newid, a pha ffactorau sy'n parhau i effeithio ar fusnesau. Mae HCC yn mynd i gynnal y dadansoddiad o ddata ymateb dienw.

HCC fydd yn rheoli'r data ar gyfer yr ymchwil ac bydd HCC yn sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil yn gwbl ddienw. Dim ond at ddibenion yr ymchwil hwn a gweinyddu'r raffl y bydd yr holl ddata personol a gesglir yn ystod yr ymchwil yn cael eu defnyddio. Bydd unrhyw ddata personol a gesglir yn cael eu dileu o weinyddion HCC o fewn chwe mis i'r arolwg ddod i ben.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Drwy gwblhau'r arolwg ar-lein, rydych yn cydsynio i gael eich cynnwys yn yr ymchwil. Gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil unrhyw bryd. Mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio ymatebion HCC i'r heriau sy'n wynebu ffermydd ledled Cymru.

**Glesni Phillips** yw'r cyswllt yn HCC ar gyfer yr ymchwil hwn .

**Cyfeiriad e-bost:** info@hybucig.cymru

**Rhif ffôn:** 01970 625 050

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym ac o ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DG (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr'.

Ar gyfer yr arolwg ar-lein, mae'r holl wybodaeth gyswllt, gan gynnwys dosbarthu negeseuon gwahoddiad drwy e-bost, wedi'i thynnu o'r wybodaeth a gedwir ar gronfa ddata cysylltiadau HCC.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol, ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan neu gael nodyn atgoffa, yna atebwch yr e-bost gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu tynnu oddi ar restr cyswllt yr arolwg (ar gyfer yr arolwg cyntaf a'r ail). Drwy gwblhau'r arolwg ar-lein, rydych yn cydsynio i gael eich cynnwys yn yr ymchwil. Gallwch dynnu'n ôl o'r ymchwil unrhyw bryd.

Os ydych wedi cyrchu'r arolwg trwy ddolen we a rennir ar-lein, yna ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu cymryd fel rhan o gwblhau'r arolwg oni bai eich bod yn cyflwyno gwybodaeth er mwyn cychwyn sgwrs ddilynol neu os hoffech gael eich cynnwys yn y raffl.

Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil, ni fyddwn yn datgelu pwy ydych o'r ymatebion a roddwch. Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol wrth ofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol ac yna'n ei ddileu o ddata'r ymchwil.

## Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer awdurdod swyddogol HCC i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd y sefydliad. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio tasg gyhoeddus fel:

- cyflawni tasg benodol er budd y cyhoedd a bennir gan y gyfraith; neu
- arfer awdurdod swyddogol (er enghraifft, tasgau, swyddogaethau, dyletswyddau neu bwerau corff cyhoeddus) a bennir gan y gyfraith.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i HCC gyflawni ei flaenoriaethau. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn, er enghraifft, yn cael ei defnyddio i lywio gwaith eiriolaeth a pholisi HCC wrth hyrwyddo buddiannau ffermwyr cig eidion a defaid.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i HCC yn cael ei storio bob amser ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Bydd HCC yn dadansoddi data dienw, a dim ond at ddibenion ymchwil y bydd yn defnyddio'r data hwn.Mae gan HCC ardystiad Cyber Essentials.

Wrth gynnal arolygon, mae HCC yn defnyddio rhaglen feddalwedd arolwg o'r enw SurveyMonkey. Rydym wedi gwneud yn siŵr bod SurveyMonkey yn cydymffurfio â GDPR y DG ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir trwy'r feddalwedd. Caiff yr holl ddata ei brosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Mae gan HCC weithdrefnau i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os bydd amheuaeth o dorri amodau, bydd HCC yn rhoi gwybod am hyn i unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny o fewn 72 awr i ddod yn ymwybodol o'r toriad.

Adroddir yr holl ddata a gesglir drwy'r ymchwil hwn mewn fformat dienw. Ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu cynnwys a bydd unrhyw wybodaeth adnabyddadwy mewn atebion penagored yn cael ei dileu. Bydd HCC yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i gynhyrchu adroddiad a allai gael ei gyhoeddi ar wefan HCC. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Gall HCC hefyd ddefnyddio canfyddiadau mewn cyfathrebiadau cyffredinol.

## Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd HCC yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol na chafodd eu dileu eisoes wrth gasglu data yn cael eu dileu chwe mis ar ôl diwedd yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt os cawsant eu rhoi i HCC.

## Hawliau unigol

O dan GDPR y DG, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r ymchwil hwn. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu pan fyddwch wedi cyflwyno data megis drwy'r arolwg neu mewn cyfweliad;
- I gael eich data wedi eu dileu' pan fyddwch wedi cyflwyno data megis drwy'r arolwg neu mewn cyfweliad: ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.org.uk

## Gwybodaeth Bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarparwyd fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan HCC neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DG, cysylltwch â:

**Enw:** Glesni Phillips

**Cyfeiriad e-bost:** gphillips@hybucig.cymru

**Rhif ffôn:** 01970 625 050